

**Nid yw'r Pwyllgor Cynllunio yn gwneud penderfyniad ynghylch pob cais cynllunio. Mae'r rhan fwyaf o geisiadau'n syml ac yn cael eu penderfynu gan Bennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio a Thai. Nid yw'r trefnau a ddisgrifir yn y daflen hon yn berthnasol i'r ceisiadau dirprwyedig hyn. Cysylltwch â ni i ganfod a oes disgwyl i'r cais y mae gennych chi ddi-ddordeb ynddo gael ei benderfynu gan y Pwyllgor Cynllunio ynteu gan Bennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio a Thai.**

Mae'r daflen hon yn egluro'r hyn y dylech ei wneud os ydych yn dymuno siarad o blaid neu yn erbyn cais cynllunio yn un o gyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio. Gallwch siarad mewn cyfarfod os ydych chi wedi gwneud cais am ganiatâd cynllunio, neu os ydych chi'n aelod o'r cyhoedd sydd eisiau siarad o blaid neu yn erbyn cais cynllunio.

Mae'r daflen yn bwriadu ateb rhai o'r cwestiynau sydd gennych o bosibl ynghylch yr hyn a ddylid ei wneud a'r hyn y gallech ei ddisgwyl yn y cyfarfod. Mae hefyd yn egluro'r rheolau syml rydym wedi cytuno arnynt i wneud y system mor deg a rhwydd â phosibl i'w defnyddio, felly sicrhewch eich bod yn darllen y daflen gyfan. Os oes gennych fwy o gwestiynau, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion cyswllt ar ddiwedd y daflen hon.

## **Sut mae'r Pwyllgor Cynllunio'n gweithio?**

Mae'r Pwyllgor Cynllunio yn cynnwys cadeirydd, is-gadeirydd a chynghorwyr. Gall cynghorwyr eraill, nad ydynt yn aelodau o'r pwyllgor, fod yn bresennol hefyd a gallant siarad mewn perthynas ag eitemau sy'n effeithio ar eu dosbarth (ward) etholiadol. Gall y wasg ac aelodau eraill o'r cyhoedd fynychu'r cyfarfodydd hefyd.

Bydd aelodau'r pwyllgor yn derbyn adroddiadau ysgrifenedig ar bob cais cynllunio a gaiff ei ystyried gan y Pwyllgor Cynllunio. Mae'r adroddiadau hyn ar gael i'r cyhoedd dri diwrnod gwaith cyn y diwrnod y cynhelir cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio.

## **Pwy all siarad yn un o gyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio?**

Gallwch chi neu eich cynrychiolydd ofyn am gael siarad mewn Pwyllgor Cynllunio am gais cynllunio rydych wedi ei wneud. Hefyd, gallwch siarad (neu ofyn i gynrychiolydd siarad ar eich rhan) os ydych naill ai'n cefnogi neu'n gwrthwynebu cais cynllunio ac wedi ysgrifennu atom i gyflwyno'ch sylwadau. Fodd bynnag, os yw'r sawl a gyflwynodd y cais neu'i gynrychiolydd yn dymuno siarad, ni fydd unrhyw un arall sy'n cefnogi'r cais yn cael siarad. Cewch siarad cyn belled â'ch bod yn ymlynu wrth y rheolau sy'n cael eu hegluro yn y daflen hon.

Fel arfer **un** unigolyn yn unig sy'n cael siarad o blaid ac **un** unigolyn yn unig sy'n cael siarad yn erbyn cais. Bydd cadeirydd y pwyllgor yn caniatáu ail siaradwr mewn achosion eithriadol yn unig, pan ei bod yn amlwg fod dadleuon gwahanol i'w clywed ar ran yr un 'ochr' – er enghraifft cais cynllunio ar gyfer archfarchnad newydd pan fo un unigolyn yn cynrychioli adwerthwyr a'r llall yn cynrychioli preswylwyr lleol, ond y ddau'n gwrthwynebu'r cynllun. Mewn achos o'r fath bydd dau unigolyn sydd yn erbyn y cynnig yn cael siarad, neu gall un unigolyn siarad am ddwywaith gyn hired ag arfer.

## **Sut a phryd y mae'n rhaid i mi roi gwybod i chi fy mod yn dymuno siarad?**

Ni allwch fynnu cael siarad yn y Pwyllgor Cynllunio, gan nad yw'n hawl gyfreithiol.

Ni allwch siarad oni bai fod y cais cynllunio ar agenda'r pwyllgor.

Gallwch siarad yn ystod ceisiadau ar gyfer caniatâd cynllunio neu fathau tebyg eraill o geisiadau yn unig (caniatâd adeilad rhestredig, caniatâd hysbysebu, cymeradwyaeth amaethyddol ymlaen llaw, cymeradwyaeth i ddymchwel ymlaen llaw, tystysgrif cyfreithlondeb).

Mae'n rhaid i chi roi gwybod i ni os ydych yn dymuno siarad a rhoi eich manylion cyswllt i ni. Mae'n rhaid i chi wneud hyn cyn gynted â phosib, fan bellaf erbyn **4.30pm ar y dydd Llun cyn cyfarfod y pwyllgor**. Os na fyddwch yn rhoi gwybod i ni mewn pryd, ni fyddwch yn gallu siarad yn y cyfarfod.

Os bydd mwy nag un unigolyn yn cysylltu â ni er mwyn siarad o blaid neu yn erbyn cais, mae'n rhaid I chi ddewis un unigolyn i siarad ar ran eich grŵp chi a rhoi gwybod i ni. Byddwn yn rhoi eich manylion cyswllt i unrhyw un sydd o'r un farn â chi, fel y gallwch benderfynu rhyngoch pwy fydd yn siarad. Os na allwch gyntuno, dim ond y cyntaf i ddweud wrthym ei fod yn dymuno siarad fydd yn cael gwneud hynny.

Os byddwch yn gofyn am gael siarad yng nghyfarfod y pwyllgor, byddwn yn cysylltu â chi dros y ffôn, yn ysgrifenedig neu drwy'r e-bost i roi gwybod i chi pryd y bydd y cais yr ydych chi'n dymuno siarad amdano'n cael ei ystyried. Os na fyddwch wedi rhoi rhif ffôn i ni, gallwn gysylltu â chi gyn hwyrdd â diwrnod y cyfarfod. Gallwch archwilio'r adroddiadau sydd ar agenda'r pwyllgor dri diwrnod gwaith cyn y cyfarfod. Cysylltwch â ni i gael gwybod sut.

## **Beth ydw i'n ei wneud ar ddiwrnod y cyfarfod?**

Cynhelir cyfarfod y pwyllgor ym **Modlondeb, Conwy**. Mae hyn o fewn pellter cerdded i safle bws a gorsaf reilffordd Conwy ac mae lleoedd parcio ar gael.

Mae'r cyfarfod yn dechrau am **2pm**. Dylech eich cyflwyno'ch hun i Swyddog y Pwyllgor rhwng **1.30pm ac 1.45pm**.

## **Pryd fyddaf yn siarad yn y cyfarfod?**

Caiff ceisiadau cynllunio lle ceir siaradwyr o blith y cyhoedd eu hystyried gyntaf fel arfer. Bydd y cadeirydd yn cyflwyno pob cais trwy roi rhif y cais a manylion y cynnig. Bydd swyddog wedyn fel arfer yn cynnig diweddariad ar yr adroddiad ysgrifenedig.

Wedyn gwahoddir aelodau o'r cyhoedd i siarad yn y drefn ganlynol

- Y sawl sy'n gwrthwynebu neu'i gynrychiolydd.
- Y sawl sy'n gwneud cais am ganiatâd cynllunio neu'i gynrychiolydd, neu rywun sy'n cefnogi'r cais.

Pan fo'r cadeirydd yn eich gwahodd i siarad, gofynnir i chi symud i le penodol yn siambr y Cyngor ble gallwch gael eich gweld a'ch clywed. Cewch dri munud i gyflwyno'ch achos.

- Cewch siarad â'r Pwyllgor yn Gymraeg neu yn Saesneg (mae cyfleusterau cyfieithu ar gael).
- Cewch siarad unwaith a hynny am hyd at **dri munud**.
- Pan fyddwch yn dechrau siarad, bydd Swyddog y Pwyllgor yn cychwyn cloc sy'n gwneud sŵn y bydd pawb yn yr ystafell yn gallu'i glywed. Pan ddaw'r tri munud i ben, bydd y cloc yn gwneud sŵn arall.
- Os yw siaradwr yn dal i siarad ar ôl tri munud, bydd y cadeirydd fel arfer yn disgwyl iddo/iddi orffen y frawddeg ac yna'n rhoi gwybod i'r siaradwr bod yr amser ar ben. Nid ydym yn caniatáu i siaradwyr fynd dros eu hamser er mwyn bod yn deg â'r siaradwyr eraill. Ond dan amgylchiadau eithriadol, gall y cadeirydd ganiatáu iddynt gael ychydig eiliadau'n ychwanegol ac yna ganiatáu i'r siaradwr ar ran 'yr ochr arall' gael yr un faint o amser ychwanegol.
- Unwaith y byddwch wedi siarad ni fydd y cadeirydd fel arfer yn caniatáu i gynghorwyr ofyn cwestiynau. Ni ddylech gychwyn dadl ag aelodau'r pwyllgor.

Byddwch wedyn yn dychwelyd i'ch sedd yn yr oriel gyhoeddus. Wedyn bydd aelodau'r pwyllgor yn trafod y cais ac fel arfer byddant yn gwneud penderfyniad i'w gymeradwyo neu'i wrthod. Weithiau byddant yn penderfynu aros tan gyfarfod arall er mwyn iddynt allu derbyn gwybodaeth bellach neu ymweld â'r safle. Gallant hefyd ddirprwyo'r cyfrifoldeb am wneud y penderfyniad i Bennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio a Thai, er enghraifft, yn dilyn trafodaethau a newidiadau i'r cais.

## **Beth allaf ei ddweud yn y cyfarfod?**

Rydych yn debygol o gael yr effaith fwyaf:

- os bydd eich cyfraniad yn gryno a phwrpasol;
- os byddwch yn cyfyngu'ch safbwyntiau i'r cais cynllunio;
- os byddwch yn canolbwyntio ar y materion cynllunio perthnasol a allai roi cymorth i'r pwyllgor wneud penderfyniad. Wrth baratoi ar gyfer hyn, cofiwch nad oes angen i chi ailadrodd yr holl bwyntiau yn unrhyw lythyrau a anfonwyd gan y bydd y rhain yn cael eu crynhoi yn yr adroddiad i'r pwyllgor.

## **Beth yw'r materion cynllunio perthnasol y gallaf eu codi?**

Mae'r materion cynllunio y gallech eu codi'n cynnwys:

- polisïau cynllun datblygu, megis polisïau ynghylch darparu tir ar gyfer tai;

- cyngor cynllunio gan y Llywodraeth, megis 'Polisi Cynllunio Cymru' neu 'Nodiadau Cyngor Technegol';
- cyfraith cynllunio, penderfyniadau a wnaed gennym yn y gorffennol, neu apelïadau blaenorol;
- sut y byddai cynnig yn effeithio ar gymeriad ac ymddangosiad yr ardal, megis lleoliad, cynllun, maint, uchder neu olwg y datblygiad;
- sut y byddai cynnig yn effeithio ar ardal breswyl, er enghraifft, a fydd sŵn, traffig neu'r oriau defnyddio'n difetha'r ardal, neu a fydd datblygiad yn edrych dros eiddo arall; a
- sut y byddai cynnig yn effeithio ar ddiogelwch ar y briffordd, er enghraifft, a fydd y datblygiad yn effeithio ar ddiogelwch i gerddwyr, yn achosi problemau parcio, neu'n atal gywyr rhag gweld yn glir.

Y materion na ddylech eu codi am nad ydynt yn faterion cynllunio yw:

- rhagofalon tân, hylendid a gofod mewnol (ymdrinnir â'r rhain dan ddeddfwriaeth arall, megis y Rheoliadau Adeiladu);
- manylion personol am yr ymgeisydd, er enghraifft, os yw'n oedrannus, yn anabl ac yn y blaen;
- anghydfodau ynghylch ffiniau neu berchenogaeth ar y tir;
- hawliau tramwy preifat, draeniau preifat neu faterion cyfreithiol preifat eraill megis cytundebau preifat;
- sut y gallai cynnig effeithio ar werth eiddo;
- colli golygfeydd; a
- chystadleuaeth rhwng busnesau sy'n ymgiprys â'i gilydd.

Bydd cadeirydd y pwyllgor yn gwrthod gwrando arnoch os byddwch yn ymddwyn yn amhriodol, yn dramgwyddus neu'n ceisio atal y pwyllgor rhag gwneud ei waith. Dylech hefyd gofio bod deddfau athrod yn llym iawn. Os byddwch yn dweud rhywbeth am rywun nad yw'n wir, hyd yn oed os ydych chi o'r farn ei fod yn wir, gallech gael eich siwio a gorfod talu iawndal. Dylech ystyried eich sylwadau'n ofalus.

### **A allaf ddsbarthu dogfennau ategol neu ddefnyddio cymhorthion gweledol?**

Ni allwch ddsbarthu dogfennau ategol yn y cyfarfod na defnyddio cymhorthion gweledol megis lluniau neu ddiagramau. Gallwch anfon gwybodaeth yn uniongyrchol at gynghorwyr cyn y cyfarfod. Mae rhestr o aelodau'r Cyngor ar ein gwefan ([www.conwy.gov.uk/councillors](http://www.conwy.gov.uk/councillors)) neu gallwch gael un o swyddfa'r Gwasanaethau Aelodau (ffôn 01492 576069). Peidiwch ag anfon dogfennau i ni eu ddsbarthu os gwelwch yn dda.

### **Pryd allaf adael y cyfarfod?**

Gallwch adael y cyfarfod ar unrhyw adeg wedi i chi siarad.

### **Sut i gysylltu â ni**

Ffôn: 01492 575471 neu 01492 575121

E-bost: [ghwasanaethau.rheoleiddio@conwy.gov.uk](mailto:ghwasanaethau.rheoleiddio@conwy.gov.uk)

Gwefan: [www.conwy.gov.uk/planning](http://www.conwy.gov.uk/planning)

Cyfeiriad Post: Rheoli Datblygu, Blwch Post 1, Conwy, LL30 9GN

